Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Data agored

3 Mehefin 2016

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 20 Mai. Ynddo, gwnaethoch ofyn:

1. *Faint o arian a ddyrannwyd i'w ddefnyddio ar gyfer data agored yn ystod blwyddyn ariannol 2015?*
2. *Faint o wybodaeth a ryddhaodd eich sefydliad ar ffurf data agored yn ystod blwyddyn ariannol 2015?*
3. *Os gwelwch yn dda, a allaf i gael copi o'ch holl bolisïau yn ymwneud â data agored?*

Byddwn yn ateb eich cwestiynau yn unigol isod:

1. *Faint o arian a ddyrannwyd i'w ddefnyddio ar gyfer data agored yn ystod blwyddyn ariannol 2015?*

Ni chafodd unrhyw gyllid penodol ei ddyrannu i'w ddefnyddio ar gyfer data agored yn ystod y cyfnod a nodir yn y cwestiynau.

2. *Faint o wybodaeth a ryddhaodd eich sefydliad ar ffurf data agored yn ystod blwyddyn ariannol 2015?*

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am ddata agored yn ystod blwyddyn ariannol 2015.

3. *Os gwelwch yn dda, a allaf i gael copi o'ch holl bolisïau yn ymwneud â data agored?*

Mae canllawiau ar Sut i Ddefnyddio Ein Gwybodaeth ar gael ar ein gwefan, ond nid oes gennym bolisi penodol ar ddata agored

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF